**GALWAD CASTIO AGORED**

Mae **Theatr Cymru, Yr Egin ac Arad Goch**, gyda chefnogaeth gan **Theatrau Sir Gâr**, yn cyflwyno sioe gerdd newydd sbon gan **Mererid Hopwood** – sy'n seiliedig ar ei chyfres o lyfrau Dosbarth Miss Prydderch - gyda cherddoriaeth gan **Seiriol Davies**. Bydd y cynhyrchiad yn teithio i theatrau ledled Cymru yn ystod tymor ysgol yr haf 2026, ar gyfer ysgolion cynradd a theuluoedd.

Wedi'i gyfarwyddo gan **Steffan Donnelly** a **Ffion Wyn Bowen,** ry' ni'n awyddus i gwrdd ag actorion sy'n canu er mwyn castio ar gyfer y cynhyrchiad dychymygus, chwareus ac hudolus hwn.

Bydd angen **paratoi 2 ddarn o sgript** y byddwn yn rhannu ymlaen llaw, **a pharatoi cân** ry' chi'n mwynhau ei chanu, sydd yn dweud stori ac sy'n dangos amrediad eich llais (bydd gofyn i chi canu a cappella neu dod a trac ar USB, ffeil mp3 gyda chi).

Mae croeso i unrhyw un sy'n ateb y gofynion castio fynegi diddordeb ac ry' ni'n arbennig o awyddus i weld **actorion sy'n byw o fewn 25 milltir i Gaerfyrddin**.

**Y Cymeriadau**

| **Cymeriadau** | **Oed Perfformio** |
|---|---|
| 2 x actor benywaidd / anneuaidd | 30au+ |
| 1 x actor gwrywaidd / anneuaidd | 30au+ |
| 2 x actor benywaidd / anneuaidd | 11-12 (Oed 18-30, yn ymddangos yn ifanc) |
| 2 x actor gwrywaidd / anneuaidd | 11-12 (Oed 18-30, yn ymddangos yn ifanc) |

**Dyddiadau Clyweliadau**

- **Dydd Llun 17/11/25** Yr Egin, Caerfyrddin
- **Dydd Mawrth 18/11/25** Yr Egin, Caerfyrddin
- **Dydd Mercher 19/11/25** Sherman, Caerdydd
- **Dydd Gwener 21/11/25** Yr Egin, Caerfyrddin
- **Dydd Llun 24/11/25** Galeri, Caernarfon
- **Dydd Mercher 26/11/25** Sherman, Caerdydd (ail glyweliadau yn unig)
- **Dydd Iau 27/11/25** Sherman, Caerdydd (ail glyweliadau yn unig)

**Dyddiadau ymarferion a thaith**

- **11 Mai 2026 – 5 Mehefin 2026**
  Ymarferion yn Yr Egin + Wythnos Tech yn Lyric, Theatrau Sir Gâr
- **6 Mehefin 2026 – 5 Gorffennaf 2026**
  Taith ledled Cymru

**Cyffredinol**

- **£665 yr wythnos**, a darperir lwfans teithio, adleoli a/neu gymudo yn unol â **chyfraddau Equity** ble'n berthnasol

- Darparwn **Ffurflen Mynediad** i chi lenwi a dychwelyd

- Rhennir yr alwad gydag asiantaethau er mwyn cyflwyno cleientiaid i'w hystyried. Os oes gydag chi asiant, mae croeso i chi dynnu eu sylw at yr alwad hefyd. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r cyfarwyddwyr i wahodd actorion

- Os ydych chi'n **actor proffesiynol heb gynrychiolaeth**, cysylltwch â'r Cynhyrchydd: Gavin.Richards@theatr.com

- Os **nad ydych ar gae**l neu os **nad yw'r amserlen yn caniatau,** gallwn dderbyn **hunan-dap.**

- Ni allwn warantu glyweld pob mynegiant diddordeb ry' ni'n derbyn

- Os ry' chi am fynegi **diddordeb ar gyfer mwy nag 1 rôl**, mae croeso i chi wneud hynny a cheisiwn hwyluso hyn gorau gallwn ni. Os na allwn hwyluso hyn oherwydd gofynion amser byddwn yn gofyn i chi **ddarparu hunan-dap** ar gyfer yr ail rôl.